

Amodau a Thelerau Safonol ar gyfer Pawb a'i Le Cymru Grantiau cyfalaf

Mae'r Gronfa Loteri Fawr ("ni", "ein", "rydym" a "byddwn") wedi cynnig grant i'r mudiad a enwir yn y llythyr cynnig grant (y cyfeirir ato fel "chi", "eich", "rydych" a "byddwch" yn yr Amodau a Thelerau hyn) ar gyfer y prosiect cyfalaf a ddisgrifir yn eich cais neu y cytunir arno fel arall gyda ni ("y prosiect").

1. Os yw unrhyw ran o'r grant cyfalaf ar gyfer prynu neu adeiladu, adnewyddu, estyn neu newid adeiladau neu dir ("**asedau cyfalaf**"), rydych yn deall y bydd yr amodau a thelerau safonol hyn yn berthnasol i'ch grant yn ogystal ag unrhyw amodau grant eraill. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr arweiniad cyfalaf perthnasol.
2. Rydych yn deall ac yn cydnabod y gallai fod angen sicrwydd arnom dros unrhyw asedau cyfalaf a ariennir gan y grant yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn yr Amodau a Thelerau grant hyn. Os ydym wedi gofyn am sicrwydd, rydych yn deall na fyddwn yn talu mwy nag uchafswm o 5% o'r grant cyfalaf hyd nes i ni dderbyn y dogfennau sicrwydd angenrheidiol wedi'u cwblhau er boddhad i ni.
3. Rydych yn cadarnhau nad oes gennych unrhyw fenthyciadau nas datgelwyd wedi'u sicrhau ar yr asedau cyfalaf. Ni fyddwch yn trefnu unrhyw fenthyciadau sydd wedi'u sicrhau ar unrhyw asedau cyfalaf a ariennir/ariennir yn rhannol gan y grant cyfalaf oni bai eich bod yn derbyn cydsyniad ysgrifenedig gennym yn gyntaf. Gallai ein cydsyniad fod yn destun amodau penodol.
4. Os yw unrhyw ran o'r grant cyfalaf ar gyfer prynu tir (p'un ai'n rhydd-ddaliadol neu'n brydlesol), byddwch yn anfon y dogfennau canlynol atom pan ofynnir amdanynt:
 - adroddiad syrfëwr ar gyflwr yr eiddo, ei werth a pha un a yw'n addas ar gyfer y prosiect ai beidio;
 - cadarnhad gan eich cyfreithwyr y daethpwyd o hyd i bob caniatâd gofynnol ar gyfer defnyddio'r eiddo at ddibenion y grant;
 - tystysgrif teitl wedi'i chwblhau gan eich cyfreithwyr (ar brofforma y byddwn ni'n ei ddarparu);
 - os yw'r grant yn fwy na £100,000, gweithred gysegru ac, os yw'r eiddo'n gofrestredig, ymrwymiad gan eich cyfreithwyr i gofnodi cyfyngiad neu rwystr gyda'r Gofrestrfa Tir neu weithred ymgymeriad os yw'r eiddo'n anghofrestredig;
 - os yw'r grant yn fwy na £350,000 ac nid ydych yn gorff statudol, arwystl cyfreithiol wedi'i lofnodi ac ymgymeriad gan ein cyfreithwyr i gofrestru'r arwystl yn y Gofrestrfa Tir a gyda Thŷ'r Cwmnïau, pan fo'n briodol;
 - cadarnhad gan eich cyfreithwyr (ar ffurf barn gyfreithiol ar brofforma y byddwn ni'n ei ddarparu) bod gennych y pwerau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i lofnodi'r dogfennau.

5. Os yw unrhyw ran o'r grant cyfalaf ar gyfer prynu tir prydlesol, byddwch yn anfon copi o'r les atom a bydd y les am yr isafswm cyfnod o flynyddoedd a ganlyn neu am yr isafswm cyfnod monitro asedau yng nghymal 12, p'un bynnag yw'r hiraf:
- Ar gyfer grant cyfalaf hyd at £100,000: les o 5 mlynedd o leiaf heb gymal torri.
 - Ar gyfer grant cyfalaf o fwy na £100,000 ond llai na £350,000, les gofrestradwy ac aseiniadwy o 10 mlynedd o leiaf, heb gymal torri.
 - Ar gyfer grant cyfalaf rhwng £350,000 ac £1 miliwn: les gofrestradwy ac aseiniadwy o 20 mlynedd o leiaf, heb gymal torri.
6. Os bydd rhan neu'r cyfan o'ch grant cyfalaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adeiladu rydych yn deall ac yn derbyn:
- y byddwn yn cadw 95 y cant o'r grant cyfalaf hyd nes i chi ddarparu'r canlynol ar ffurf foddhaol:
 - tystiolaeth eich bod wedi derbyn unrhyw ganiatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd rheoliadau adeiladu (neu unrhyw ganiatâd neu reol berthnasol arall) y mae ei angen ar gyfer y gwaith adeiladu; a
 - thystiolaeth y cyflawnwyd proses dendro gystadleuol gydag o leiaf tri dyfynbris wedi'u derbyn gan dri adeiladwr annibynnol. Os ydych chi'n comisiynu'r gwaith adeiladu o dan drefniadau tendro ymlaen llaw, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'r broses dendro a gyflawnwyd i adnabod contractwyr presennol;
 - byddwn yn gwneud taliadau fesul cam pan fyddwn yn derbyn anfonebau gan adeiladwyr neu yn erbyn tystysgrifau dros dro a gwblhawyd ar y ffurflen RIBA (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain) neu anfonebau priodol eraill;
 - byddwn yn cadw 5% o'r rhan o'r grant ar gyfer y gwaith adeiladu hyd nes i ni dderbyn y dystysgrif cwblhau ymarferol. Wedyn, mae'n rhaid i chi anfon y dystysgrif cywiro diffygion atom; y dystysgrif derfynol; a chadarnhad eich bod wedi dod o hyd i dystysgrif gwblhau y rheoliadau adeiladu a'r dystysgrif yswiriant adeiladu; ac
 - os ydych eisiau gwneud newidiadau sylweddol i gwmpas y gwaith adeiladu, mae'n rhaid i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym ymlaen llaw cyn bwrw 'mlaen.
7. Os bydd rhan neu'r cyfan o'ch grant cyfalaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adeiladu rydych yn deall ac yn derbyn y canlynol:
- bydd angen cadarnhad arnom gan eich cyfreithwyr (ar ffurf tystysgrif teitl ar brofforma y byddwn ni'n ei ddarparu) mai chi yw perchennog prydlesol neu rydd-ddaliadol yr asedau cyfalaf y mae'r grant yn gysylltiedig â nhw, ynghyd â chopi o'r les os yn brydlesol, ac y gellir defnyddio'r asedau cyfalaf at ddiben y grant;

- byddwn yn cadw 95 y cant o'r grant cyfalaf hyd nes i chi ddarparu'r canlynol ar brofforma sydd wedi'i gwblhau er boddhad i ni:
 - copi o'r adroddiad adolygu tendr. Os ydych yn comisiynu'r gwaith adeiladu o dan drefniadau tendro ymlaen llaw, byddwch yn darparu tystiolaeth i ni sy'n dangos bod costau wedi'u profi gyda'r farchnad i gadarnhau gwerth am arian;
 - crynodeb costau, llif arian a rhaglen waith ar gyfer y prosiect cyfalaf, i gyd wedi'u diweddarau; a
 - thystiolaeth eich bod wedi sicrhau'r holl arian partneriaeth y mae ei angen ar gyfer y prosiect cyfalaf;
 - mae'n rhaid i chi gyflogi gweithiwr adeiladu proffesiynol arweiniol i reoli'r broses dendro a chadarnhau bod y gwaith adeiladu wedi'i gyflawni'n briodol;
 - os oes angen gwaith adeileddol, mae'n rhaid i chi gyflogi peiriannydd adeileddol;
 - byddwch yn defnyddio gweithwyr adeiladu proffesiynol sy'n aelodau cwbl gymwysedig o gorff proffesiynol cymeradwy, gyda phob ffurf angenrheidiol ar yswiriant indemniad proffesiynol; ac
 - os daw gwaith adeiladu o dan y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015, byddwch yn cadarnhau ein bod wedi penodi prif ddylunydd.
8. Ni fyddwch yn gwerthu, lesio, gosod, isosod neu fel arall gwaredu neu newid defnydd unrhyw ased cyfalaf heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gennym, a allai fod yn destun amodau penodol. Os byddwch yn gwerthu neu'n gwaredu unrhyw ased cyfalaf, mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian rydych wedi'i dderbyn gennych. Bydd y swm rydych yn ei ad-dalu'n gymesur yn uniongyrchol â'r gyfran o'r prosiect a ddaeth oddi wrthym ni. Os byddwch yn gwerthu unrhyw ased cyfalaf a brynwyd gyda'r grant yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar ôl cael caniatâd gennym ni, caiff ei werthu ar werth llawn y farchnad.
9. Byddwn ni'n parhau i fonitro asedau cyfalaf a brynwyd gyda'r grant ar ôl i'r prosiect ddod i ben a byddwch yn darparu gwybodaeth am yr asedau cyfalaf ac yn caniatáu i ni archwilio nhw yn unol â'n gweithdrefnau safonol am ba un bynnag yw'r hiraf o'r cyfnodau perthnasol a ganlyn:
- ar gyfer eiddo rhydd-ddaliadol a brynwyd gyda'r grant cyfalaf: 40 mlynedd ar ôl prynu
 - ar gyfer eiddo pryddlesol a brynwyd gyda'r grant cyfalaf: Cyfnod y les sydd heb ddod i ben neu am 40 mlynedd, p'un bynnag yw'r byrraf
 - ar gyfer grant cyfalaf hyd at £100,000 i wneud gwaith adeiladu (ar dir rhydd-ddaliadol neu bryddlesol sydd eisoes yn eiddo i chi): 5 mlynedd
 - ar gyfer grant cyfalaf o fwy na £100,000 ond llai na £250,000 i wneud gwaith adeiladu (ar dir rhydd-ddaliadol neu bryddlesol sydd eisoes yn eiddo i chi): 10 mlynedd

- ar gyfer grant cyfalaf rhwng £350,000 ac £1 miliwn i wneud gwaith adeiladu (ar dir rhydd-ddaliadol neu brydlesol sydd eisoes yn eiddo i chi): 20 mlynedd
 - ar gyfer asedau cyfalaf eraill os cawsant eu prynu gyda hyd at £100,000 o grant cyfalaf: 5 mlynedd ar ôl prynu neu hyd y cytundeb grant, p'un bynnag yw'r byrraf
 - ar gyfer asedau cyfalaf eraill os cawsant eu prynu gyda mwy na £100,000 o grant cyfalaf: 10 mlynedd ar ôl prynu neu'r bywyd economaidd arferol, p'un bynnag yw'r byrraf.
12. Rydych yn deall ac yn derbyn y bydd cyfnod monitro asedau'n dechrau o ddyddiad prynu'r ased neu ddyddiad cwblhau'r gwaith adeiladu, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf.